COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30 am AR DDYDD LLUN 17eg MAWRTH 2003 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD

Comisiynwyr

Mrs. S G Smith (Cadeirydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy-Gadeirydd)
Mr. D H Roberts (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth

Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. S R Halsall
Mr. C Chapman
Mr. D Carr

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mr. Frank Cuthbert MLlL2
(Eitem 1 ar yr Agenda yn unig)

1. Cyflwyniad Mr. Frank Cuthbert Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol.

1.1 Rhoddodd Mr Cuthbert gyflwyniad byr a derbyniodd gwestiynau am strwythurau llywodraeth leol o ran fformatau priod gynghorau a chabinet o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

1.2 Hefyd derbyniodd Mr Cuthbert gwestiynau am faterion cymunedol a chynghorau cymuned, er iddo gynghori'r cyfarfod y byddai'n fwy buddiol i'r Comisiwn pe bai yn gwahodd Dr Ian Thomas o Dîm Strategaethau Cymunedol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w briffio ar y materion hyn. Cytunwyd ar hyn.

1.3 Diolchodd y cyfarfod i Mr. Cuthbert am ei gyflwyniad.

2. Cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2003.

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. Materion yn codi

3.1 Gosod cyfrifiaduron

3.2 **Nodwyd** bod gohebiaeth wedi digwydd rhwng y Comisiwn a'r Ysgrifennydd Parhaol a Mr Bryan Mitchell o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran yr oedi a ddigwyddodd wrth gwblhau camau terfynol y gwaith o osod cyfrifiaduron a meddalwedd.

3.2.1 **Nodwyd** bod yr oedi wrth ddatrys problemau gan y contractwyr TG yn effeithio ar waith y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.

3.2.2 **Nodwyd** bod yr offer a'r meddalwedd newydd i fod yn eu lle erbyn 21ain Mawrth 2003.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwmtwrch – Adroddiad Cynigion Terfynol.

4.1 **Nodwyd** na allai sefydlu ffin newydd a fyddai'n gosod Ystad Ddiwydiannol Gurnos yn Sir Powys ac nid yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot effeithio mewn unrhyw ffordd ar berchnogaeth yr ystad ddiwydiannol.

4.2 **Cadarnhawyd** nad oedd gan y Comisiwn bwerau i newid perchnogaeth y tir.

4.3 **Cytunwyd** y dylai'r Cynigion Terfynol gael eu cyflwyno cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl Etholiadau'r Cynulliad.

5. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Ymgynghoriad Pellach.

5.1 Cyflwynwyd y costau amrywiol y gwahanol ddulliau o ymgynghori i'r cyfarfod.

5.2 Wedi ystyried, **cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ysgrifennu at yr holl etholwyr y gallai'r cynigion effeithio arnynt, yn eu hysbysu am gynigion y Comisiwn, ac yn eu gwahodd i gyfarfod cyhoeddus er mwyn i'r Comisiynwyr allu egluro'r cynigion a'r dewisiadau oedd ar gael.

5.3 **Cytunwyd** y dylid cynnwys ffurflen bleidleisio/sylwadau ac amlen ragdaledig gyda'r llythyr.

5.4 **Cadarnhawyd** na ddylid cynnal unrhyw ymarfer o'r fath tan ar ôl Etholiadau'r Cynulliad.

6. Gofynion Hyfforddi'r Comisiwn.

6.1 Ystyriodd y Comisiwn amrywiol eitemau a ddarparwyd o ran seminarau i gynorthwyo wrth hysbysu'r Comisiynwyr am faterion cyfredol o fewn llywodraeth leol.

6.2 Ar ôl ystyried, **cytunwyd** y dylai o leiaf un Comisiynydd fynychu Cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Medi 2003, gan mai dyma yn ôl pob tebyg, fyddai'r fforwm mwyaf priodol a pherthnasol i'w fynychu.

7. Arolwg Cyngor Sir Powys o'r ffin rhwng cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach (Ward Llanhamlach).

7.1 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys mewn perthynas â'r ffin rhwng cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach.

7.2 **Cytunwyd** y dylid cynnwys Arolwg Cymunedol mewn perthynas â chasgliadau'r adroddiad hwn yn rhaglen waith y Comisiwn.

8. Cyllid – Gwariant Amcangyfrifedig ar gyfer 2002/03.

8.1 Adroddiad yn rhoi amcangyfrif o'r gwariant terfynol ar gyfer blwyddyn 2002/2003.

8.2 **Nodwyd** bod yr arian a ddyrannwyd ar gyfer 2003/2004 yr un peth â 2002/2003 sef cronfa weithredol o £354,000.

9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn

9.1.1 **Nodwyd hefyd** bod y papurau ar gyfer y cyfarfod wrthi'n cael eu cwblhau a chadarnhawyd mai'r lleoliad fyddai Ystafell y Bwrdd 2 yn Arena Ryngwladol Caerdydd.

9.1.2 **Nodwyd hefyd** y byddai cinio croeso ar y noson cyn y digwyddiad yng Ngwesty Jury's Caerdydd lle y byddai'r rhan fwyaf o'r cynadleddwyr yn aros.

9.2 Cyfarfod rhwng Prif Weinidog y Cynulliad a Chadeiryddion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

9.2.1 **Nodwyd** mai dim ond y diwrnod cynt y cyhoeddwyd yr agenda ar gyfer y cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a Chadeiryddion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. **Cytunwyd** y dylid codi'r pryder am yr oedi wrth gyhoeddi'r agenda gyda Swyddfa'r Prif Weinidog.

9.2.2 Y materion a godwyd yn y cyfarfod gyda'r Prif Weinidog i'w trafod oedd:

- Llythyrau Cylch Gwaith Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
- Arolwg gan Brif Swyddog Cyllid y Cynulliad o Faterion Ariannol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
- Ymarfer Brandio "Tîm Cymru" Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
- Trefniadau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn ystod cyfnod Ymgyrch Etholiad y Cynulliad.

9.2.3 O ran yr ymarfer brandio, **nodwyd bod** y Cadeirydd wedi hysbysu'r cyfarfod gyda'r Prif Weinidog y byddai'n amhriodol i'r Comisiwn gael ei "frandio" gan ei fod yn gorff annibynnol, ac y dylai fod yn amlwg mai dyna ydoedd.

9.3 Penodaid Dros Dro

9.3.1 Nodwyd bod y Cadeirydd wedi ei phenodi dros dro fel Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru am gyfnod o 6 mis.

9.4 Gwasanaethau Cyfreithiol

9.4.1 **Nodwyd** yn dilyn cyngor gan y Cynulliad, y byddai'r Comisiwn, yn rhoi proses dendro ar waith yn fuan ar gyfer ei wasanaethau cyfreithiol.

9.5 Data Ffiniau Wardiau Cymuned

9.5.1 **Nodwyd** nad oedd unrhyw gronfa ganolog o ddata electronig am ffiniau wardiau cymuned. Byddai'r data hwn yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw arolwg o drefniadau etholiadol awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol.

9.5.2 **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi gofyn am gyngor gan y Cynulliad a ddywedodd mai'r sefydliad a oedd yn y sefyllfa orau i gasglu a chadw'r data oedd y Comisiwn ei hun.

9.5.3 **Nodwyd** y byddai angen arian ychwanegol ar y Comisiwn i goladu data drwy gyfrwng contract ymgynghorol. Nododd y Cynulliad y byddai angen i'r Comisiwn gyflwyno achos busnes iddo cyn y gellid ystyried arian ar gyfer ymgynghori.

9.5.4 **Cytunwyd** y dylid ysgrifennu at Awdurdodau Lleol yng Nghymru er mwyn canfod faint o'r data electronig hwn sy'n bodoli eisoes er mwyn cyfrifo i ba raddau y byddai angen i unrhyw ymgynghoriaeth ymchwilio i ganfod y data hwn.

9.5.5 **Cytunwyd** wrth gasglu data, y dylid ceisio cytundeb gan yr Awdurdodau Lleol i gael eu cydweithrediad wrth ddiweddaru'r data yn rheolaidd.

9.6 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

9.6.1 **Cytunwyd** y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar 21ain Mai 2003 (gan ddechrau am 10.30 am) a 20fed Mehefin 2003 (gan ddechrau am 10 am gyda'r Pwyllgor Archwilio i'w ddilyn gan y prif gyfarfod).

9.6.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7fed Ebrill 2003 gan ddechrau am 2 pm yn swyddfeydd y Comisiwn.